

Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Gwlad Enedigol

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. O ganlyniad, ni fydd ffigurau a grëir drwy grynhoi daearyddiaethau lefel is yn cyfateb i ffigurau a ryddhawyd ar gyfer daearyddiaethau uwch. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymhell cydgrynhoi daearyddiaethau lefel is i greu daearyddiaethau uwch.

Gwlad Enedigol	Sir Gaerfyrddin				Cymru				Cymru a Lloegr			
	2011		2021		2011		2021		2011		2021	
Pob person	183,777		187,888		3,063,456		3,107,499		56,075,912		59,597,538	
Cymru	139,693	76.0%	138,743	73.8%	2,226,005	72.7%	2,202,820	71%	2,732,624	4.9%	2,681,517	4.5%
Lloegr	34,799	18.9%	37,994	20.2%	636,266	20.8%	659,084	21.2%	44,882,858	80.0%	46,047,808	77.3%
Gogledd Iwerddon	406	0.2%	396	0.2%	8,253	0.3%	7,803	0.3%	214,988	0.4%	198,344	0.3%
Yr Alban	1,258	0.7%	1,228	0.7%	24,346	0.8%	21,975	0.7%	733,218	1.3%	648,418	1.1%
Y Deyrnas Unedig/ Prydain Fawr heb ei nodi fel arall	36	0.0%	24	0.0%	715	0.0%	383	0.0%	7,214	0.0%	3,480	0.0%
Ewrop: Iwerddon	631	0.3%	516	0.3%	12,175	0.4%	9,998	0.3%	407,357	0.7%	324,670	0.5%
Ewrop: Gwlad Pwyl	2,003	1.1%	2,415	1.3%	18,023	0.6%	24,832	0.8%	579,121	1.0%	743,083	1.3%
Ewrop: Rwmania	77	0.0%	405	0.2%	1,495	0.0%	8,520	0.3%	79,687	0.1%	538,840	0.9%
Ewrop: Ewrop arall	1,111	0.6%	2,279	1.2%	28,186	0.9%	56,792	1.8%	1,248,882	2.2%	2,536,081	4.3%
Affrica	662	0.4%	934	0.5%	22,006	0.7%	28,760	0.9%	1,312,617	2.3%	1,586,958	2.7%
Y Dwyrain Canol ac Asia	1,696	0.9%	2,141	1.1%	57,929	1.9%	69,328	2.2%	2,587,066	4.6%	3,311,030	5.6%
America a'r Caribî	472	0.3%	554	0.3%	10,310	0.3%	12,631	0.4%	673,401	1.2%	802,630	1.3%
Antarctica ac Oceania (gan gynnwys Awstralia)	214	0.1%	259	0.1%	4,173	0.1%	4,573	0.2%	183,373	0.3%	174,596	0.3%

Dadansoddiad:

- Ganed mwyafrif llethol y bobl sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin yng Nghymru (73.8%) neu Loegr (20.2%). Bu gostyngiad yng nghyfran y bobl a anwyd yng Nghymru sy'n byw yn y sir ers y cyfrifiad diwethaf gyda gostyngiad o 2.2%. I'r gwrthwyneb, bu cynnydd o 1.3% yng nghyfran y bobl a aned yn Lloegr sy'n byw yn y sir dros yr un cyfnod.
- Dros y deng mlynedd ddiwethaf mae'r sir wedi dod yn gartref i fwy o bobl a aned yn Rwmania a Gwlad Pwyl, sy'n cyfrif am rai o'r codiadau cymesurol mwyaf arwyddocaol. Mae hyn hefyd yn wir am bobl a anwyd yn y Dwyrain Canol ac Asia.

Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Gwlad Enedigol

Diffiniad:

Mae'r set ddata hon yn darparu amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 sy'n dosbarthu preswylwyr arferol yng Nghymru a Lloegr yn ôl gwlad eu geni. Mae'r amcangyfrifon fel ag yr oeddent ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021.

I bobl na chawsant eu geni yn un o bedair rhan y DU, roedd opsiwn i ddewis "man arall".

Gofynnwyd i bobl a ddewisodd "man arall" ysgrifennu enw presennol eu gwlad enedigol.